Cronfa Bensiwn
GWYNEDD
Pension Fund

**Datganiadau Polisi Gweinyddol**

**Teitl:** Polisi talu buddion pensiwn a lwmp swm i aelodau

1. **Diben:**

Mae'r polisi hwn yn nodi'r canllawiau bydd y gronfa bensiwn yn eu dilyn er mwyn sicrhau bod y buddion pensiwn yn cael eu talu i'r cyfrif banc cywir.

2. **Cwmpas y polisi:**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i aelodau'r gronfa bensiwn lle mae pensiwn a/neu lwmp swm ymddeol yn ddyledus.

3. **Datganiad Polisi:**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi ymrwymo i sicrhau bod buddion pensiwn a lwmp swm ymddeol yn cael eu talu yn ddiogel ac yn gywir i'w haelodau. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer talu'r arian hwn i gyfrifon banc.

4. **Gweithdrefnau:**

Ar ôl ymddeol, dyma'r drefn i'w dilyn:

4.1 **Telir i gyfrifon yn enw'r aelodau yn unig**:

- Bydd gofyn i'r aelod gwblhau ffurflen ymddeol. Bydd y ffurflen hon yn gofyn i aelodau gadarnhau manylion eu cyfrif banc.
- Bydd buddion pensiwn a lwmp swm ymddeol ond yn cael eu talu i gyfrifon banc lle mai'r aelod yw deiliad y cyfrif a enwir.
- Bydd taliadau ond yn cael eu gwneud mewn i gyfrifon a ddelir yn enw'r aelod. Gwneir eithriadau os yw'r cyfrif yn cael ei ddal gan unigolyn sydd â Phwer Atwrnai dilys ar gyfer yr aelod, waeth beth fo'u perthynas.

4.2 **Gwirio Cyfrif Banc**:

- Bydd gwiriad cyfrif banc yn cael ei gynnal bob tro y gwneir taliad.
- Mae'r broses wirio hon yn sicrhau bod manylion y cyfrif a ddarperir yn cyd-fynd â gwybodaeth ar gofnod yr aelod.

5. **Cyfrifoldebau:**

5.1 **Cyfrifoldebau Aelodau:**

- Rhaid i aelodau ddarparu manylion cyfrif banc cywir a chyfredol i Gronfa Bensiwn Gwynedd.
- Rhaid cyfleu unrhyw newidiadau i wybodaeth cyfrif banc yn brydlon er mwyn osgoi oedi talu.

5.2 **Cyfrifoldebau'r Gronfa**:

- Bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn sicrhau bod yr holl wiriadau gwirio cyfrifon banc yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn ddiogel.
- Bydd y gronfa'n cynnal cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth cyfrif banc aelodau.

**6. Cydymffurfio a Monitro:**

- Bydd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn.
- Bydd unrhyw anghysondebau neu faterion a nodwyd yn ystod y broses ddilysu yn cael sylw yn brydlon.

**7. Adolygu ac diwygio:**

Mae'r polisi hwn yn effeithiol ar unwaith ac mae'n berthnasol i bob taliad pensiwn a lwmp swm yn awr ac yn y dyfodol.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei effeithiolrwydd a'i gydymffurfiaeth â'r rheoliadau perthnasol.

**8. Manylion Cyswllt:**

Gall aelodau gysylltu â'r Gronfa ar unrhyw adeg i gael cymorth gyda'r polisi hwn.

- **Ffôn** 01286 679982
- **E-bost:** pens@gwynedd.llyw.cymru
- **Gwefan:** www.cronfabensiwngwynedd.llyw.cuymru

---

**Cymeradwywyd gan:** [Enw] Cronfa Bensiwn Gwynedd

Dyddiad: